**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL**

**Y MESUR PLANT, YSGOLION A THEULUOEDD**

## Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol

"Bod cynnig gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.4, yn cytuno y dylai Senedd y D.U. ystyried y darpariaethau hynny sy'n ymwneud â Byrddau Lleol Diogelu Plant a darparu gwybodaeth am ysgolion etc yn y Mesur Plant, Ysgolion a Theuluoedd, fel y'i cyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 19 Tachwedd 2009, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru."

## Y Cefndir

1. Mae'r Cynnig uchod wedi'i gyflwyno gan Jane Hutt, Gweinidog Cymru dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes o dan Reol Sefydlog 26.4 o Reolau Sefydlog ("RhS") Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("CCC"). Caiff y memorandwm hwn ei osod o dan RhS26.2. Mae RhS26 yn pennu bod yn rhaid cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron CCC os yw Mesur sy'n cael ei ystyried yn Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol CCC, neu'n gwneud darpariaeth sy'n cael effaith negyddol ar y cymhwysedd hwnnw.

2. Cafodd y Mesur Plant, Ysgolion a Theuluoedd ("y Mesur") ei gyflwyno ar 19 Tachwedd 2009. Mae'r Mesur i'w weld ar:

http://www.publications.parliament.uk/pa/cm200910/cmbills/008/10008.i-iii.html

## Crynodeb o'r Mesur a'i Amcanion Polisi

3. Mae darpariaethau yn y Mesur sy'n ymdrin ag ystod o feysydd polisi ac nid yw llawer o'r darpariaethau sydd ynddo yn gymwys yng Nghymru. Prif ddiben y Mesur yw cyflwyno system o warantau ar gyfer rhieni a disgyblion sydd yn y system ysgolion a gwneud newidiadau i'r modd y mae ysgolion yn gweithredu gyda'i gilydd. Mae yn y Mesur hefyd ddarpariaethau'n ymwneud â'r cwricwlwm ac addysgu yn y cartref, ac mae'n cyflwyno system o drwyddedau i ymarfer ar gyfer athrawon, yn diwygio Deddf Plant 2004 mewn perthynas â Byrddau Lleol Diogelu Plant, ac yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â chyfiawnder ieuenctid a chyhoeddi gwybodaeth mewn achosion yn y Llysoedd Teulu. Mae'r Mesur hefyd yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â phlant ag anableddau neu anghenion addysgol arbennig, ac mewn perthynas â darparu addysg o dan amgylchiadau eithriadol mewn ysgolion arhosiad byr neu mewn mannau eraill.

**Y Darpariaethau yn y Mesur y ceisir cydsyniad ar eu cyfer**

4. Mae'r Mesur yn gwneud darpariaeth sy'n gymwys i'r un graddau yng Nghymru ac yn Lloegr o ran darparu gwybodaeth mewn perthynas ag ysgolion ac addysg a ariennir sy'n cael ei dderbyn heblaw am yn yr ysgol. I grynhoi'r darpariaethau hynny:

- Mae Cymal 20 yn diwygio adran 537 o Ddeddf Addysg 1996 ("Deddf 1996") er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n golygu ei bod yn ofynnol i ysgolion ddarparu gwybodaeth ynghylch barn personau penodedig am ysgol ac ynghylch sut y byddant yn mynd ati i geisio'r farn honno. Ceir pennu mewn rheoliadau y math o wybodaeth sydd i'w darparu. Mae'r cymal hwn hefyd yn mewnosod adran 537ZA newydd i Ddeddf 1996 ac mae'r adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n golygu ei bod yn ofynnol darparu gwybodaeth am addysg a ariennir gan awdurdod addysg lleol o dan adran 19(1) o Ddeddf 1996. Mae'r pŵer hwn yn adlewyrchu'r pŵer hwnnw mewn perthynas ag ysgolion a nodir yn adran 537 o Ddeddf 1996 (fel y'i diwygiwyd gan y Mesur) ac yn rhoi pwerau i gasglu'r wybodaeth honno oddi wrth yr awdurdod addysg lleol ac oddi wrth y darparwr addysg. Ceir pennu hefyd mewn rheoliadau y math o wybodaeth a all fod yn ofynnol. Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Rheoliadau eisoes o dan adran 537 o Ddeddf 1996 fel y mae ar hyn o bryd. Ymhlith y rheoliadau hynny y mae Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion) (Cymru) 2004 a Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Cymru) 1999. O dan y rheoliadau hynny, mae'n ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion ddarparu ystod eang o wybodaeth, gan gynnwys y canlynol ymhlith pethau eraill:
  - manylion y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol;
  - canlyniadau academaidd ar draws yr ysgol;
  - manylion y cwricwlwm; a
  - manylion polisïau penodol a fabwysiedir yn yr ysgol mewn nifer o feysydd, gan gynnwys proses gwynion yr ysgol, y ddarpariaeth y mae'n ei gwneud ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig, ei pholisïau ar godi tâl ac ar beidio â chodi tâl, a'i threfniadau mewn perthynas â chludiant i'r ysgol.

- Mae cymal 29 yn mewnosod adran newydd ar ôl adran 32 o Ddeddf Plant 2004 er mwyn nodi nifer o amodau lle mae'n rhaid i berson neu gorff roi gwybodaeth benodedig i Fwrdd Lleol Diogelu Plant. Mae'n nodi hefyd fod yn rhaid i Fwrdd Lleol Diogelu Plant ystyried unrhyw ganllawiau y mae Gweinidogion Cymru yn eu rhoi iddo wrth iddo arfer unrhyw un neu rai o'i swyddogaethau o dan yr adran honno.

5. Mae'r darpariaethau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y Materion a ganlyn:

- Mater 5.6 - Darpariaeth am wneud trefniadau i ddarparu addysg ar gyfer personau mewn oedran ysgol orfodol a waharddwyd o

ysgolion neu na fyddent am unrhyw reswm arall yn cael addysg addas fel arall

- Mater 5.7 – Darpariaeth am yr hawl i gael addysg gynradd, uwchradd a phellach ac i gael hyfforddiant
- Mater 15.2 - Swyddogaethau awdurdodau cyhoeddus sy'n gysylltiedig â'r canlynol - (a) diogelu plant rhag niwed ac esgeulustod; (b) diogelu a hyrwyddo llesiant plant hawdd eu niweidio; (c) lleihau anghyfartaleddau llesiant rhwng plant neu bersonau ifanc
- Mater 15.6 – Cydweithredu a threfniadau i ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant neu bersonau ifanc.

**Manteision defnyddio'r Mesur hwn**

6. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Mesur hwn ar lefel y DU gan mai dyma'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf priodol a chymesur er mwyn sicrhau y bydd y darpariaethau hyn yn gymwys yng Nghymru cyn gynted ag y bo modd. Bydd hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyflwyno deddfwriaeth briodol yn unol â'r blaenoriaethau a'r materion sy'n berthnasol i Gymru.

7. Pe na bai'r diwygiadau hynny ond yn gymwys i Loegr, byddai Gweinidogion Cymru o dan anfantais o'u cymharu â'r Ysgrifennydd Gwladol o safbwynt y pwerau a fyddai ganddynt i gasglu ac i gyhoeddi'r wybodaeth. Y cyngor a gafwyd oddi wrth Gwnselwyr Seneddol mewn perthynas â'r diwygiadau i adran 537 o Ddeddf 1996 yw y byddai hepgor Cymru o'r diwygiadau hyn yn awgrymu'n gryf nad yw Gweinidogion Cymru yn meddu ar y pwerau i'w gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion yng Nghymru ddarparu gwybodaeth ynghylch barn pobl am yr ysgol.

8. O'r herwydd, mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn wedi'i osod, a'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i gyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol, i'w hystyried ganddo.

**Goblygiadau Ariannol**

9. Bydd goblygiadau ariannol unrhyw ymgynghoriad, deddfwriaeth neu ganllawiau a fydd yn deillio o unrhyw benderfyniad a wneir yn y dyfodol i arfer y pŵer i wneud rheoliadau o dan y darpariaethau perthnasol yn cael eu hystyried yn llawn o ran eu fforddiadwyedd ac mewn Arfarniad Effaith Rheoliadol a fyddai'n cynnwys dadansoddiad o'r costau a'r manteision.

Jane Hutt
Gweinidog Cymru dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes Sgiliau